

# **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION PWYLLGOR GWAITH 28 MEHEFIN 2018

Presennol

C Larsen, A Hopcyn, E R Hughes, W T Owen, D L Jones, C Williams

## **1. Ethol swyddogion**

Cadeirydd C Larsen (unfrydol)

Dirprwy D L Jones (unfrydol)

## **2. Ymddiheuriadau**

Cyng. W R Owen a Cyng. R Thomas

## **3. Datgan Buddiant Personol**

Dim

**4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

**Dim**

## **5. Glanhau Strydoedd**

Croesawyd Mr Steffan Jones Cyngor Gwynedd oedd wedi dod a rhestr o'r lleoliadau sydd yn cael eu glanhau yn bresennol

Aethpwyd trwy bob ward a sylweddoli bod enwau rhai strydoedd dim ar y rhestr ( er bod rhai wedi eu lliwio ar y mapiau )

Roedd Steffan am sicrhau os ydynt yn cael eu glanhau ar hyn o bryd cyn cychwyn edrych ar rhaglennu yr oriau ychwanegol

Nodwyd pwyntiau cyffredinol bod hi yn anodd iawn ir peiriant glanhau pam mae ceir wedi parcio ar ochr lon

Dyma rhestr o lefydd cafodd eu trafod fesul Ward

## **Cadnant**

Nodwyd nad oedd y subway o Williams St ar y map  
Maes Heulog , Cefn Cadnant a Glan Cadnant ddim ar y map

Ffordd Bethel a Cae Glyn yn broblemus (dim bin ochr Cadnant o Ffordd Bethel )

Cae berllan (y gwrych llawn sbwriel)

Tir ar y troiad i'r Barracks yn ardal problemus

## **Peblig**

Lon Cefn DU a Cil Peblig dim ar y rhestr

Edrych i mewn i dyddiad glanhau Peblig a Cadnant gan bod nhw ddim yn siwtio i'r dyddiad hel biniau ella bod yn well newid y ddau ardal ar gyfer y peiriant glanhau

## **Menai**

Ffordd Ysgubor Wen Ddim ar y rhestr

Ceg y subway am Twthill angen sylw

Maes Parcio tu ôl I Asda ( Balaclava) ardal problemus

Yn gyffredinol canol dref yn well

Car Park Shell – Bin wedi torri yno felly sbwriel yn disgyn allan

## **Seiont**

Ardaloedd sydd wedi cael eu nodi yn broblemus

Coed Helen

Segontium Terrace a Love Lane

Stryd Capel Jopa

Lon Parc tir preifat

Dros Ffordd i Roman Fort

Angen edrych ar lon Tesco /McDonalds am Hen Walia

Cafwyd sgwrs am problemau baw cŵn a gofynnwyd i Steffan holi pam bod tystiolaeth am baw cŵn ddim yn medru cael ei weithredu ( os nad yw gan swyddog priodol ) pan mae'r heddlu yn croesawu defnydd o dashcams preifat

Steffan yn mynd i ceisio cael ateb ar hyn

Mi Fydd Steffan yn mynd ati i weld os ydi'r strydoedd a enwir yn cael eu glanhau ac yna eu ychwanegu at y rhestr er mwyn sicrhau bod o yn rhestr yn weithredol cywir

Yna am edrych ar sut i ddefnyddio'r 200 awr yn ddoeth gan awgrymu ychwanegu mwy o oriau i'r sesiwn glanhau yn y prynhawn

Diolchodd y Cadeirydd Mr Steffan Jones am ei amser ac am y cydweithio hyd yma

Gorffennodd y cyfarfod am 6.00

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....